




national museum cardiff
amgueddfa genedlaethol caerdydd














# chwarae rhifau ac iaith

## gweithgareddau ar gyfer plant 0-5 oed yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Addas i'r blynyddoedd cynnar a theuluoedd.

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# chwarae rhifau ac iaith

## mwynhewch gyda rhifau, siapiau a geiriau!

Mae’r llyfryn hwn yn cynnwys enghreifftiau o weithgareddau a grëwyd fel rhan o’r project Chwarae Rhifau, ar y cyd â Chwarae ac Iaith Caerdydd. Ar gyfer grwpiau llai mae bagiau gweithgaredd ar gael yn cynnwys yr holl adnoddau a nodir. Mae’r rhain yn addas ar gyfer 25 o blant ar y tro mewn 5 grŵp bach.

Os hoffech fenthyg y bagiau gweithgaredd, rhowch wybod i ni wrth archebu lle fel gallwn sicrhau eu bod ar gael.

Rhaid trefnu ymweliadau gan grwpiau ymlaen llaw – (029) 2057 3240

Gall grwpiau – yn enwedig rhai mwy na 25 – ddefnyddio’r syniadau yn y llyfryn i ddatblygu adnoddau sy’n addas i’w hanghenion penodol.

Gobeithio y byddwch chi’n mwynhau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.





# chwarae rhifau ac iaith

## gweithgareddau cyn ymweld

**Cynlluniwch yr ymweliad gyda'r plant**

- Beth ydych chi'n meddwl y gwelwn ni?
- Beth hoffen ni ei ddysgu?
- Cymharwch yr Amgueddfa ag adeiladau mawr eraill y gallai'r plant fod yn gyfarwydd â nhw, e.e. llyfrgell neu archfarchnad.

**Cyfri'r dyddiau**

- Gwnewch res o flychau neu sgwariau i gynrychioli nifer y dyddiau sydd ar ôl tan ddiwrnod yr ymweliad. Rhowch rif i bob diwrnod a chyfrwch am yn ôl i'r blwch neu'r sgwâr olaf. Gwnewch res o flychau neu sgwariau wedi'u marcio â'r rhifau 1-5. Gofynnwch i'r plant dynnu un blwch bob dydd tan ddiwrnod yr ymweliad.

**Crefft**

- Crëwch gêm 'Mi wela i…' syml drwy dynnu lluniau siapau, neu dorri siapau o gardfwrdd, a mynd â nhw gyda chi ar eich ymweliad.
- Crëwch fasg anifail i wisgo ar y diwrnod.
- Crëwch bypedau bys i'w defnyddio gyda'r penillion cyfri.

**Llyfrau**

- Darllenwch straeon am ymweld ag Amgueddfa e.e.
  *Maisy goes to the Museum* gan Lucy Cousins
  *Katie's Picture Show* gan James Mayhew
  *Museum Trip* gan Barbara Lehman
  *Mostyn yn Mynd i Sain Ffagan!* gan Catrin Hughes
- Bydd llawer mwy o lyfrau i'w darllen yn eich llyfrgell leol, cyn ac ar ôl eich ymweliad.

**Gemau cyfri ar gyfer y daith**

- Sawl person yn eich teulu/grŵp sy'n mynd i'r Amgueddfa?
- Sawl ffenestr sydd ar flaen yr Amgueddfa?
- Faint o risiau oedd yn rhaid eu dringo i gyrraedd yr Amgueddfa?
- Gallwch chi barhau i ofyn cwestiynau tebyg wrth grwydro'r Amgueddfa.

**Yn olaf cofiwch fynd â chamera.**

# chwarae rhifau ac iaith



## gweithgareddau ar gyfer eich ymweliad

Rhai awgrymiadau ar beth i'w wneud yn ystod eich ymweliad. Mae mapiau ar gael o ddesg flaen yr Amgueddfa.

***Sylwer:***
*Mae'r gwrthrychau yn yr orielau yn werthfawr iawn ac ni ddylech gyffwrdd â nhw. Mae gennym oriel ryngweithiol, Canolfan Ddarganfod Clore, lle mae llawer o wrthrychau y gallwch chi gyffwrdd â nhw.*

**Faint o'r gloch yw hi?**

- Allwch chi weld y cloc mawr ym mhrif neuadd yr Amgueddfa? Faint o'r gloch yw hi?
- Tynnwch lun wyneb cloc a gofyn i'ch plant roi'r dwylo ar y cloc pan fyddwch chi'n cyrraedd yr Amgueddfa ac yn gadael. Trafodwch hyd eich ymweliad.
- Canwch *Hicori Dicori Doc*

**Bingo**

- Gallwch chi chwarae'r gêm hon mewn unrhyw oriel.
- Ysgrifennwch y rhifau 1-10 ar ddarn o bapur.
- Dechreuwch gydag 1. Gofynnwch beth yw'r rhif. All y plant ganfod 1 o rywbeth yn yr oriel? Allan nhw ganfod 2 o rywbeth? Daliwch ati nes cyrraedd 10. Gyda phlant llai, cyfrwch i 5.

- Gallwch chi hefyd roi sticer ar y grid bingo isod pan fyddwch chi'n canfod y nifer cywir o bethau. Gwaeddwch 'BINGO' ar ôl llenwi pob rhif.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 |

# chwarae rhifau ac iaith



**Tali siapiau**

- Cadwch siart tali wrth grwydro'r Amgueddfa. Bob tro y gwelwch chi siâp yn yr orielau, rhowch sticer ar y siart tali. Allwch chi weld unrhyw siapiau eraill? Ychwanegwch nhw i'r siart.

| Siâp | Faint? |
|---|---|
| Sgwâr ■ | |
| Triongl ▲ | |
| Cylch ● | |
| Hirsgwar ▬ | |
| Hirgrwn ⬮ | |

**Creu enfys – helfa liwiau**

- Rhowch her i'r plant i ganfod pob un o liwiau'r enfys ym mhob oriel.

**Cyfri**

- Cyfrwch y pysgod, anemonïau, crancod meddal ac anifeiliaid morol eraill ar Lan y Môr (Orielau Hanes Natur Is).
- Darllenwch *Croeso i'n Cragen* gan Julia Donaldson.

- Sawl mochyn daear sydd yn y coetir?
- Beth maen nhw'n ei wneud? Trafodwch pam mae cartref yn bwysig.
- Darllenwch *Sbwriel Sbango* gan Tony Bonning.

Wrth archwilio'r anifeiliaid yn yr Amgueddfa, ceisiwch ddynwared sŵn pob un.



# chwarae rhifau ac iaith

**Mesur**

- Allwch chi weld adar yr ardd ger y coetir?
- Pa un yw'r aderyn mwyaf? Pa un yw'r lleiaf?

- Mesurwch pa mor fawr yw'r Morfil Cefngrwm mewn camau (Orielau Hanes Natur Uwch).

- Chwiliwch am y deinosoriaid yn oriel Esblygiad Cymru.
- Sawl sgerbwd deinosor allwch chi eu gweld? Pa un sy'n codi mwyaf o ofn?
- Allwch chi weld asgwrn clun yr Apatosaurus? Ydy e'n dalach na chi? Dychmygwch pa mor fawr oedd y deinosor!
- Darllenwch *Arwyn yr Anturiwr: Deinosor yn y Goedwig* gan Grace Todd.

**Helfa Casglu Celf**

- Rhowch restr i'r plant o bethau i'w canfod yn yr orielau celf (neu crëwch eich rhestr eich hun o luniau cyn cyrraedd). Bydd yr helfa drosodd pan fyddan nhw wedi canfod pob eitem. Rhowch y pum eitem gyntaf i blant iau, a'r deg eitem i blant hŷn.

Blodyn
Ffrwyth
Het grand
Y môr
Rhywbeth glas

Plentyn
Anifail
Streipiau
Yr haul
Eira





# chwarae rhifau ac iaith

## syniadau eraill i’w gwneud yn ystod ac ar ôl eich ymweliad

**Mi wela i...**

- Gallwch chi chwarae’r gêm hon yn yr orielau ac mae’n wych ar gyfer dysgu synau’r gwahanol lythrennau.

**Cerddwch yn ddoniol wrth grwydro**

- Beth am hercian am 3 cam, neidio am 2, cymryd camau mawr, siglo... Dylech chi annog y plant i symud mewn ffyrdd gwahanol e.e ar flaenau’u traed ar y teils, stompio yn yr oriel deinosoriaid.

**Mathemateg arian**

- Bydd ymweld â’r siop yn gyfle i ymarfer mathemateg arian.

**Cofiwch**

- Pan fyddwch chi wedi gorffen eich taith, ceisiwch gofio trefn yr orielau e.e. fe welon ni’r deinosoriaid gyntaf, yna’r…

**Gwnewch rywbeth i’w gofio**

- Os wnaethoch chi dynnu lluniau/darluniau yn ystod yr ymweliad, gwnewch lyfryn lluniau am eich ymweliad. Helpwch y plant i ysgrifennu am bob llun, e.e. fe welon ni dri mochyn daear.



# chwarae rhifau ac iaith



## penillion yn yr orielau

Syniadau ar gyfer rhigymau a chaneuon cyfri – cofiwch yr ystumiau!

***Mi welais jac y do***
*Yn eistedd ar ben to*
*Het wen ar ei ben*
*a dwy goes bren*
*Ho Ho Ho Ho Ho Ho!*

***Dau gi bach yn mynd i'r coed,***
*Esgid newydd am bob troed,*
*Dau gi bach yn dwad adre*
*Wedi colli un o'u sgidie,*
*Dau gi bach*

***Pum crocodeil yn nofio yn yr afon,***
*Pum crocodeil yn nofio yn yr afon,*
*Nofiodd un o dan y dŵr, sblash!*
*Dim ond pedwar sydd ar ôl*

*Pedwar crocodeil yn nofio yn yr afon…*
*Tri crocodeil yn nofio yn yr afon…*

***Hicori dicori doc,***
*Llygoden lan y cloc,*
*Mae'n taro tri,*
*I lawr â hi,*
*Hicori dicori doc,*
*Tic toc*

***Hickory dickory dock,***
*The mouse ran up the clock,*
*The clock struck one,*
*The mouse ran down,*
*Hickory dickory dock*
*Tick tock*

# chwarae rhifau ac iaith



***Clap, clap, un dau tri***
*Clap, clap, un dau tri*
*Clap, clap, un dau tri*
*Troi a throi ein dwylo*

***Clap, clap, one two three***
*Clap, clap, one two three*
*Clap, clap, one two three*
*Turn and turn your hands*

***1, 2, 3, 4, 5, once I caught a fish alive***
*6, 7, 8, 9, 10, then I let it go again*
*Why did you let it go?*
*Because it bit my finger so*
*Which finger did it bite?*
*This little finger on my right*

***5 little owls in the old oak tree***
*Fluffy and puffy as owls can be*
*Then all of them hooted, twit twoo*
*And one fluffed its wings and off it flew*

*4 little owls…*
*3 little owls…*

Diolch i Chwarae ac Iaith am eu cyngor wrth ddatblygu'r adnoddau hyn.